



GWYNEDD ARCHAEOLOGICAL TRUST
YMDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL GWYNEDD

Polisi Preifatrwydd

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn egluro pam ein bod yn casglu data personol, pa ddata personol a gasglwn, a sut rydym yn ei ddefnyddio. Eglurir eich hawliau o ran eich data.

Rydych yn ymddiried yn yr Ymddiriedolaeth gyda'ch gwybodaeth ac rydym o ddifri ynghylch eich cyfrifoldebau. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich data personol.

Mai 2018

Polisi Preifatrwydd

1. Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (GAT) wedi ymrwmo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd.

Eglura ein Polisi Preifatrwydd sut mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ar ôl eich data personol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a fwriadwyd i ddiogeli eich data personol a'ch preifatrwydd. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaw i rym ar 25 Mai 2018. Eglurwn hefyd beth yw eich hawliau.

Wrth ddarparu eich data personol, rydych yn cydnabod y byddwn ond yn ei ddefnyddio yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

Efallai y bydd angen i ni wneud newidiadau i'n Polisi Preifatrwydd; felly trowch at ein gwefan i gael y fersiwn ddiweddaraf.

Darllenwch y Polisi Preifatrwydd hwn yn ofalus er mwyn deall arferion GAT ynglŷn â'ch data personol a sut rydym yn rheoli'ch data. Os oes gennych gwestiynau am y polisi hwn neu ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth (ar y cyfeiriad isod). Wrth ymweld â'n gwefan yn www.heneb.co.uk rydych yn derbyn ac yn cydsynio i'r arferion a ddisgrifir yn y polisi hwn.

Er diben Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 rheolwr y data yw GAT. Yr unigolyn dynodedig o ran diogelu data yw Andrew Davidson, y Prif Archaeolegydd.

2. Bydd yr Ymddiriedolaeth angen cael eich cydsyniad i ddefnyddio'ch gwybodaeth at ddibenion penodol. Wrth dderbyn y polisi preifatrwydd hwn, rydych yn cydsynio i ni brosesu gwybodaeth yn unol â dibenion a darpariaethau'r Polisi Preifatrwydd hwn. Yn arbennig, rydych yn cydsynio i ni gysylltu â chi gyda gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn y dyfodol, neu at ddibenion marchnata.

3. Sut rydym yn casglu gwybodaeth

3.1 Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol pan fyddwch chi'n defnyddio'n gwefan, yn ymuno â GAT fel gwirfoddolwr, ffrind i GAT neu'n holi am ein gweithgareddau'n gyffredinol, yn cofrestru'ch manylion, yn anfon neu'n derbyn e-bost, yn holi cwestiwn neu fel arall, yn rhoi gwybodaeth bersonol i ni.

3.2 Efallai y bydd yr wybodaeth bersonol a gasglwn yn cynnwys eich e-bost, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn. Byddwn yn cofnodi'ch ceisiadau am wybodaeth ac unrhyw adborth gennych.

3.3 Rhaid i ni sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn gyfredol. Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn newid - er enghraifft, os bydd eich cyfeiriad e-bost, enw, manylion talu yn newid, neu os ydych am ganslo'ch tanysgrifiad neu gofrestriad, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

3.4 Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am sut mae defnyddwyr yn defnyddio'n gwefan, tebyg i ba dudalennau sy'n boblogaidd a pha wasanaethau, digwyddiadau neu gyfleusterau sydd fwyaf o ddiddordeb. Efallai yr olrheinir pa dudalennau y bydd defnyddwyr yn ymweld â nhw pan fyddant yn clicio dolenni mewn e-byst. Efallai y defnyddiwn yr wybodaeth hon i bersonoli'r modd y cyflwynir ein gwefan, pan fo defnyddwyr yn ymweld â hi, i wneud gwelliannau iddi, ac i sicrhau y ddarparwn y gwasanaeth gorau i ddefnyddwyr. Rydym yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd neu sy'n anhysbys nad yw'n adnabod ymwelwyr unigol i'n gwefan, lle bo hynny'n bosibl.

4. Sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

Yn unol â chyfreithiau Diogelu data, rhaid i'r data personol a gedwir gennym amdanoch:

- Gael ei brosesu'n gyfreithlon, teg ac yn dryloyw;
- Cael ei gasglu at ddibenion dilys rydym wedi'u hegluro'n glir i chi yn unig, ac ni chaiff ei ddefnyddio'n anghymarus â'r dibenion hynny;
- Yn berthnasol er y dibenion a ddywedasom wrthy ch ac ni chânt eu defnyddio ond at y dibenion hynny;
- Bod yn gywir a chyfoes;
- Gael ei gadw'n ddiogel a chyfrinachol;
- Beidio â chael ei gadw'n hwy nag sydd angen, er y dibenion a ddywedasom wrthy ch.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

4.1 i hybu nodau GAT;

4.2 i roi gwasanaethau, cynhyrchion neu wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani neu wedi tanysgrifio iddi;

4.3 i'ch hysbysu am ddigwyddiadau'r dyfodol, y cynhyrchion a'r gwasanaethau y credwn a all fod o ddiddordeb i chi;

4.4 er dibenion gweinyddol;

4.5 i roi gwybod i chi am newidiadau i'n gwasanaethau; yn rhan o'n hymdrechion i gadw'n safle'n ddiogel; ac i sicrhau y cyflwynir cynnwys o'n safle yn y modd mwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur.

5. Achosion pan fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth, o bosibl.

5.1 Efallai y rhannwn eich gwybodaeth bersonol gyda chontractwyr a chyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan, i'r graddau angenrheidiol i'ch galluogi chi i gael y gwasanaethau hynny, a chyda sefydliadau a chynrychiolwyr cysylltiedig er y dibenion a ddisgrifiwyd uchod.

5.2 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd ein gwefan yn cynnwys dolenni i wefannau, ac o wefannau Ymddiriedolaethau Archaeolegol eraill. Os dilynwch un o ddolenni'r gwefannau hyn, nodwch fod gan y gwefannau hyn eu polisiau preifatrwydd eu hunain. Nid ydym yn cymryd cyfrifoldeb neu'n atebol dros y polisiau hyn. Darllenwch y polisiau cyn i chi roi data personol ar y gwefannau hyn os gwelwch yn dda.

6. Sut rydym yn gwarchod eich gwybodaeth bersonol?

6.1 Cymerwn fesurau priodol i sicrhau y cedwir gwybodaeth a ddatgelir i ni'n ddiogel, cywir a chyfredol ac nad yw'n cael ei chadw am yn hwy nag sydd angen, er y dibenion a bennwyd. Ond fel y gwyddoch, nid yw'r rhyngwyd yn gyfrwng gwbl ddiogel. Er y gwnawn ein gorau glas i ddiogelu'ch data personol, ni allwn warantu diogelwch neu gywirdeb gwybodaeth bersonol a drosglwyddir oddi wrthy ch, neu i chi, drwy'r rhyngwyd. Ar eich risg eich hun y digwydd unrhyw drosglwyddiad. Wedi i ni dderbyn eich gwybodaeth, dilynwn weithdrefnau llym a defnyddiwn nodweddion diogelwch tebyg i amgryptiad neu warchod cyfrineiriau i geisio atal mynediad anawdurdodedig.

6.2 Mae'r hawl gennych i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol neu ddefnyddio'ch llun, er dibenion marchnata.

6.3 Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth a ddelir amdano ch, (efallai y codwn dâl am hyn) ac i gywiro unrhyw anghywirdeb yn eich gwybodaeth. Os dymunwch ddefnyddio'r hawliau hyn,

cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth – mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn. Efallai y gofynnwch chi i ni, neu y gofynnwn ni i chi, gywiro gwybodaeth yr ydych chi, neu yr ydym ni, o'r farn ei bod yn anghywir. Gallwch ofyn i ni hefyd ddileu gwybodaeth sy'n anghywir.

6.4 Os dywedwch wrthym fod eich data personol yn anghywir, bydd yr Ymddiriedolaeth yn diweddarau'r data.

6.5 Mae gennych hawl i wneud cais am ddileu eich data (cyfeirir ato'n aml yn 'hawl i gael eich anghofio'). Efallai y byddwch am ddefnyddio'r hawl hwn am reswm, er enghraifft, os nad oes angen i ni barhau i gadw neu brosesu'ch data personol, gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl. Sylwch fod hawl gennym i gadw'ch data er dibenion ystadegol.

6.6 Mae gennych hawl i'n hatal rhag prosesu'ch data, er dibenion marchnata. Os hoffech i'r Ymddiriedolaeth roi'r gorau i ddefnyddio'ch data personol er y diben hwn, neu os hoffech ddefnyddio unrhyw hawl sydd gennych fel y nodir uchod, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Gweithredwn yn unol â'ch cyfarwyddiadau, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, ac ni chodir tâl.

7. Beth yw cwcis?

7.1 Ffeil fechan yw cwci - fe'i harbedir ar eich cyfrifiadur neu ddyfais arall pan fyddwch chi'n ymweld â'n gwefan. Mae cwcis yn storio darnau bach o wybodaeth. Er enghraifft - byddant yn cofio eich bod wedi ymweld â'n gwefan neu wedi gwneud gweithred benodol.

7.2 Defnyddiwn gwcis i'n helpu i wella'ch profiad wrth i chi ymweld â'n gwefan.

7.3 Mae cwcis yn dweud wrthym pa dudalennau gwefan yr ydych chi wedi ymweld â nhw; gallant ein helpu i ddatblygu'n gwefan ymhellach.

- Cwcis dyfalbarhaus - mae'r rhain yn parhau'n ddilys, a byddant yn gweithio tan eu dyddiad gorffen (oni bai yr ydych chi yn eu dileu cyn iddynt orffen)
- Cwcis sesiwn - daw'r rhain i ben pan gaewch eich porwr gwe. Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i'ch gwahaniaethu chi rhwng defnyddwyr eraill o'n gwefan. Mae hyn yn ein helpu i gyfoethogi'ch profiad pan fyddwch chi'n pori'n gwefan, ac yn caniatáu i ni wella'n safle.

8. Newidiadau i'r polisi yma

8.1 Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud newidiadau yn y dyfodol i'n polisi preifatrwydd ac fe gânt eu postio ar y dudalen hon. Dychwelwch ati'n rheolaidd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu i weld a wnaed newidiadau i'n polisi preifatrwydd. Wrth barhau i ddefnyddio'n gwefan, ystyrir eich bod wedi derbyn y newidiadau.

9. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth

Os oes gennych gwestiynau am y polisi hwn neu ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth dros y ffôn, mewn e-bost neu drwy lythyr.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd Garth
Bangor
Gwynedd LL57 2RT

Ffôn 0044 (0) 1248 352535
E-bost: gat@heneb.co.uk